Mae'n gôl . . . mae'n gôl!

(ffyddlondeb / mwynhau bywyd llawn)

"Mae'n gôl! Mae Giggs wedi sgorio ail gôl i Manchester United. Gôl ardderchog... heibio i dri chefnwr ac yna cic ardderchog o ymyl y cwrt cosbi i ochr dde'r rhwyd. Gôl benigamp." Yna mae'r sylwebydd 'Motty', neu John Motson i roi iddo ei enw bedydd, yn mynd ati i roi ribidirês o ffeithiau am Giggs. A dyma ddawn Motty. Mae ei wybodaeth am y gêm yn anhygoel. Mae wedi casglu pob math o ffeithiau am bêl-droedwyr ar bob cyfandir a phan mae'n sylwebu mae'r ffeithiau hyn yn help mawr, yn enwedig pan fo chwaraewr wedi'i anafu a dim chwarae'n digwydd.

Ond mae Motty'n feirniadol iawn o'r gêm y dyddiau hyn. Pan ofynnwyd iddo'n ddiweddar am ei farn am y gêm meddai, "Mae gen i ofn erbyn hyn mai arian, arian, arian ydi popeth yn y gêm. Mae'r arian mae rhai chwaraewyr yn ei ennill yn sgandal noeth. Meddyliwch am chwaraewr ifanc yn gadael yr ysgol ac yn gwybod fawr o ddim ond am bêl-droed ac yna'n sydyn mae'n werth £80,000 i £90,000 yr wythnos. A pheth arall, mae ymddygiad rhai o'r chwaraewyr hyn yn warthus." Yn wir mae John Motson wedi gweld dirywiad mawr yn y ffordd mae'r gêm yn cael ei rhedeg a'i rheoli. Cafodd Motty ei godi ar aelwyd grefyddol. Roedd ei dad, William Motson, yn weinidog gyda'r Methodistiaid Wesleaidd. Golygai hyn fod y teulu yn symud o un ardal i ardal arall yn gyson.

Yn ne-ddwyrain Llundain y treuliodd Motty y rhan helaethaf o'i blentyndod a chan fod ei dad yn gefnogwr pêl-droed brwd byddai'n mynd â'r mab i weld gwahanol dimau'n chwarae. Ond, yn ôl Motty, mae ganddo ddiddordeb mawr, hyd yn oed y dyddiau hyn, yn nhîm Charlton Athletic. Felly, ar y Sadwrn, byddai Motty a'i dad yn mwynhau eu hunain ar y caeau pêl-droed, ond ar y Sul bydden nhw yn y capel.

Ar y cychwyn, byddai'r teulu (unig blentyn oedd Motty) yn mynd i'r capel deirgwaith y Sul. Oedfa'r bore a'r hwyr a'r Ysgol Sul yn y pnawn. Mae Motty'n rhoi disgrifiad manwl, fel petai'n sylwebu ar gêm bêl-droed, o ddigwyddiadau'r Sul. "Ar y Sul byddai'r gwasanaeth yn para am awr a mwy. Pump o emynau, dwy weddi, dau ddarlleniad o'r Beibl ac yna pregeth gan fy nhad oedd yn para am bron i hanner awr gyfan. Yna, ar ddiwedd y gwasanaeth, byddai'r gynulleidfa'n aros i fân siarad am oriau. Yn ystod yr

wythnos byddai gwahanol gymdeithasau'n cyfarfod. Yn wir mi fyddai rhywbeth yn digwydd yn y capel bob dydd o'r wythnos ac fel arfer mi fyddai'n rhaid i mi fynd i'r gwahanol bethau gan mai fi oedd mab y Mans! Ond wnaeth hyn ddim llawer o ddrwg i mi."

Mae John Motson yn dal i sylwebu ar bêl-droed a hefyd mae'n dal i fod yn aelod o'r eglwys Fethodistaidd. Mae hefyd yn gwneud llawer o waith gwirfoddol.

Dechreuodd ei ddiddordeb mewn gwaith gwirfoddol pan oedd yn fachgen bach yn yr Ysgol Sul. "Yn yr Ysgol Sul mi oeddwn i'n gallu prynu cardiau Sunny Smiles oedd â llun o blentyn yn gwenu ar bob un ohonyn nhw. Roedd yr arian yn mynd i helpu plant oedd mewn cartrefi. Erbyn hyn does yna ddim "cartrefi" ar gyfer plant, dim ond canolfannau dyddiol ac mae prif swyddfa'r "Action for Children" drws nesaf i Highbury, cae pêl-droed Arsenal. "Rai blynyddoedd yn ôl fe redais gan milltir, a hynny yn ystod un flwyddyn, a chael pobl i'm noddi. Ar ddiwedd y flwyddyn roeddwn wedi casglu £96,000 i goffrau 'Action for Children' a phan oeddwn yn cyflwyno'r siec dyma gwpwrdd yn agor a phwy oedd yno? Cerddodd dyn efo llyfr coch allan o'r cwpwrdd – Michael Aspel – ac meddai 'John Motson, This is Your Life'."

Adnod: "Beth bynnag yr ydych yn ei wneud, ar air neu weithred, gwnewch bopeth yn enw'r Arglwydd Iesu, gan roi diolch i Dduw, y Tad, drwyddo ef." Colosiaid 3:17

Gweddi: Pan fydda i wedi gwirioni 'mhen efo chwaraeon o bob math, a wnei di, O Dduw, fy helpu i weld fod yna bethau eraill mewn bywyd. Amen.

Trafod:

- Beth sy'n gwneud sylwebydd pêl-droed da?
- Beth fyddech chi'n ei ddweud oedd y dylanwadau cynnar ar John Motson?